Cyfle cyfartal ac amrywiaeth mewn ysgolion yng Nghymru

Arolwg ar weithredu arweiniad ACCAC ar hyrwyddo cyfle cyfartal ac amrywiaeth (2001) ac effeithiolrwydd ysgolion ac AALlau o ran bodloni dyletswyddau statudol dan ddeddfwriaeth cysylltiadau hiliol

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi Dros Addysg
A Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate
For Education and Training in Wales

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

...Rhagoriaeth i bawb... ...Excellence for all...

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir wrth fynd i'r wasg. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad at:

Adran Cyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy e-bost at publications@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i'r Gymraeg)

© Hawlfraint y Goron 2005: Gellir ailddefnyddio'r ddogfen/cyhoeddiad (ac eithrio'r logos adrannol) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhai nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad

Cynnwys		Tudalen

1.	Cyflwyniad	1
2.	Cyd-destun	1
3.	Prif ganfyddiadau	2
4.	Argymhellion	3
5.	Hyrwyddo cyfle cyfartal ac amrywiaeth	4
6.	Mynd i'r afael â gwahaniaethu ac ystrydebau	5
7.	Arweinyddiaeth ysgolion ac AALlau	7
8.	Dogfennau ACCAC ar gyfle cyfartal ac amrywiaeth	9
9.	Gwella neu gyfoethogi rhaglenni gwaith	10
10.	Gweithgareddau allgyrsiol	11
11.	Digwyddiadau arbennig	12
12.	Cyd-destun deddfwriaeth Cysylltiadau Hiliol	15
13.	Gwaith AALlau ac ysgolion wrth fodloni dyletswyddau statudol dan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio)	15

1. Cyflwyniad

1.1 Nod yr adroddiad hwn yw edrych ar ba mor effeithiol y mae ysgolion wrth ddefnyddio'r arweiniad ACCAC ar hyrwyddo cyfle cyfartal ac amrywiaeth.

1.2 Wrth lunio'r adroddiad hwn, ymwelodd AEM o Estyn â deuddeg awdurdod addysg lleol (AALlau) a phedair ysgol ar hugain ac ystyriwyd tystiolaeth ganddynt.

1.3 Mae'r adroddiad hefyd yn disgrifio enghreifftiau o arfer dda a gymerir o nifer o ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig ledled Cymru. Mae'r enghreifftiau'n cynrychioli ysgolion:

- sydd yn amlhiliol;
- sydd â phoblogaethau gwyn yn bennaf neu gyfan gwbl wyn; neu
- sydd â disgyblion ag anableddau.

1.4 Mae'r adroddiad yn edrych ar ba mor effeithiol y mae ysgolion wrth fodloni eu dyletswyddau dan ddeddfwriaeth cysylltiadau hiliol a pha mor effeithiol y mae AALlau wrth eu cefnogi yn y dyletswyddau hynny.

2. Cyd-destun

2.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyfrannu at ymrwymiad y Cynulliad i hyrwyddo cyfle cyfartal a chynnal amgylchedd sy'n dathlu amrywiaeth fel y disgrifir yn 'Y Wlad sy'n Dysgu'.[1] Mae Pennod 4 y ddogfen honno'n nodi mai bwriad y Cynulliad yw:

- galluogi ACCAC i gynnig arweiniad ar y cwmpas yn y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer Cymru ar gyfer hyrwyddo cyfle cyfartal a'r ddealltwriaeth o amrywiaeth; a

- gweithredu argymhellion Adroddiad Pwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad, sydd wedi'u hardystio gan Weinidogion, ar y mesurau i'w cymryd yn y system addysg yng Nghymru i frwydro yn erbyn hiliaeth.

2.2 Lluniodd ACCAC arweiniad i ysgolion yn 2001. Canolbwyntiodd yr arweiniad ar y cyfleoedd yng nghwricwlwm yr ysgol i addysgu a dysgu am faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth sy'n gysylltiedig ag anabledd, rhyw a hil, ac i herio rhagfarn ac ystrydebau mewn ysgolion ac yn y gymuned ehangach.

2.3 Mae'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 yn rhoi dyletswydd ar ysgolion i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol. Mae'r ddyletswydd yn golygu bod yn rhaid i ysgolion geisio:

[1] 'Y Wlad sy'n Dysgu. Dogfen ymbaratoi. Rhaglen Addysg a Dysgu Gydol Oes Gynhwysfawr hyd at 2010 yng Nghymru.' Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2001

- dileu gwahaniaethu hiliol anghyfreithlon;
- hyrwyddo cyfle cyfartal; a
- hyrwyddo cysylltiadau da rhwng pobl o grwpiau hiliol gwahanol.

3. Prif Ganfyddiadau

3.1 Mae lleiafrif o ysgolion wedi ymgorffori hyrwyddo cydraddoldeb hiliol ac amrywiaeth o fewn ethos, athroniaeth a bywyd yr ysgol o ddydd i ddydd. Yr ysgolion hyn yn bennaf, ond nid yn gyfan gwbl, yw'r rheiny â nifer sylweddol o ddisgyblion o leiafrifoedd ethnig.

3.2 Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion ddimensiwn amlddiwylliannol yn eu polisïau ysgol. Yn yr arfer orau, mae cynhwysiant yn rhan flaenllaw o ethos yr ysgol ac mae'r ysgol yn ceisio sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn gwireddu eu llawn botensial.

3.3 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn mynd i'r afael â gwahaniaethu ac ystrydebau mewn cynlluniau gwaith, yn enwedig lle mae manylebau byrddau arholi yn gofyn bod disgyblion yn astudio'r materion hyn.

3.4 Mae llawer o ysgolion yn rhoi pwyslais penodol ar hyrwyddo modelau rôl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Fodd bynnag, nid oes digon o athrawon o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a all fod yn fodelau rôl effeithiol ar gyfer disgyblion.

3.5 Mae llawer o ysgolion wedi adolygu cynnwys gwerslyfrau ac wedi prynu llyfrau newydd sydd â llai o duedd diwylliannol a thuedd rhyw. Fodd bynnag, dim ond ystod gyfyngedig o destunau amlddiwylliannol addas sydd gan y mwyafrif o ysgolion.

3.6 Mae lleiafrif o ysgolion yn sicrhau y gall disgyblion anabl gyfranogi mewn ystod lawn o weithgareddau allgyrsiol. Gwneir addasiadau priodol i alluogi hyn.

3.7 Prin iawn o ysgolion sydd wedi defnyddio dogfen ACCAC yn effeithiol fel adnodd ar gyfer ymagweddau addysgu. Nid yw rhai ysgolion, ac athrawon unigol mewn llawer o ysgolion, yn ymwybodol o fodolaeth y ddogfen.

3.8 Yn yr ysgolion hynny sydd â'r ymagweddau mwyaf effeithiol at fynd i'r afael â gwahaniaethu ac ystrydebau, mae athrawon fel arfer wedi datblygu eu mentrau unigryw eu hunain, yn hytrach na mabwysiadu syniadau o arweiniad ACCAC.

3.9 Mae gan bron pob ysgol bolisi cydraddoldeb hiliol. Roedd un ysgol a ymwelwyd â hi heb bolisi, neu, nid oeddent yn gwybod bod angen un arnynt.

3.10 Er bod gan bron yr holl ysgolion y polisïau hyn, maent yn gopïau o bolisïau model yn bennaf y darperir ar eu cyfer gan yr AALl, gydag ychydig neu ddim ystyriaeth o amgylchiadau unigol yr ysgol ei hun.

3.11 Prin iawn yw'r ysgolion â chynlluniau gweithredu sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb hiliol.

3.12 Nid oes llawer o AALlau wedi cynnig cymorth i ysgolion mewn cydraddoldeb hiliol heblaw am lunio polisi model. Mae'r AALlau hynny â niferoedd mawr o ddisgyblion o leiafrifoedd ethnig yn cynnig mwy o gymorth yn gyffredinol.

3.13 Mae lleiafrif o ysgolion mewn ardaloedd ag ychydig neu ddim disgyblion o leiafrifoedd ethnig o'r farn nad oes gan addysg cydraddoldeb hiliol lawer o arwyddocâd iddynt.

4. Argymhellion

Dylai AALlau:

A1 gefnogi ysgolion i sicrhau bod cydraddoldeb hiliol ac amrywiaeth wedi'u hymgorffori'n dda yn ethos, athroniaeth a gweithdrefnau gweithredol pob ysgol;

A2 cynnig mwy o gymorth i ysgolion o ran datblygu ac adolygu eu polisïau cydraddoldeb hiliol; a

A3 rhannu mwy o adnoddau ar faterion cyfle cyfartal ac amrywiaeth gyda'i gilydd a chydag ysgolion.

Dylai ysgolion:

A4 sicrhau bod cydraddoldeb hiliol ac amrywiaeth wedi'u hymgorffori'n dda yn eu hethos, eu hathroniaeth a'u gweithdrefnau gweithredu;

A5 defnyddio mwy o destunau sy'n adlewyrchu cefndiroedd diwylliannol gwahanol;

A6 defnyddio mwy o adnoddau sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal ac amrywiaeth; a

A7 datblygu cynllunio gweithredu ar gyfer cydraddoldeb hiliol.

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

A8 roi strategaethau ar waith i ddenu mwy o bobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig i'r proffesiwn addysgu; a

A9 darparu fforwm i AALlau rannu a hyrwyddo arfer dda wrth fodloni eu cyfrifoldebau dan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000.

5. Hyrwyddo cyfle cyfartal ac amrywiaeth

5.1 Mae lleiafrif o ysgolion wedi ymgorffori hyrwyddo cydraddoldeb hiliol ac amrywiaeth yn ethos, athroniaeth a bywyd yr ysgol o ddydd i ddydd. Yr ysgolion yn bennaf, ond nid yn gyfan gwbl, yw'r rheiny sydd â nifer sylweddol o ddisgyblion o leiafrifoedd ethnig. Yn yr ysgolion hyn, mae polisïau cydraddoldeb hiliol a chyfle cyfartal yn cefnogi'r holl bolisïau eraill a chanolbwyntir ar y materion hyn yng nghynlluniau datblygu ysgolion. Er enghraifft, datganiad cenhadaeth un ysgol gynradd yw 'Dysgu a Byw mewn Cytgord' ac mae'r ysgol yn ymgorffori un adran benodol ar gydraddoldeb hiliol a chyfle cyfartal yn holl bolisïau'r ysgol. Yn yr un modd, mae ysgol fabanod yng Nghaerdydd yn rhoi pwyslais penodol ar gynhwysiant ac mae datganiad cyffredinol i'r perwyl wedi'i ymgorffori yn holl bolisïau'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn arfer gyffredin yn y rhan fwyaf o ysgolion.

5.2 Mae ysgolion sy'n rhoi polisïau o'r fath ar waith yn rhoi cryn bwyslais ar ddathlu amrywiaeth yn ei hystyr fwyaf cyffredinol a gwerthfawrogi cyfraniadau unigol pob disgybl.

5.3 Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion ddimensiwn amlddiwylliannol yn eu polisïau ysgol. Yn yr arfer orau, mae cynhwysiant yn rhan flaenllaw o ethos yr ysgol ac mae'r ysgol yn ceisio sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn gwireddu eu llawn botensial.

5.4 Yn y rhan fwyaf o ysgolion, trefnir gwasanaethau i fod yn berthnasol i'r holl ddisgyblion. Er enghraifft, mae ysgol gynradd yn Abertawe weithiau'n cynnal gwasanaethau mewn tair iaith yn Saesneg, Bengali a Chymraeg.

Astudiaeth Achos A
Cyd-addoli: Rydym i gyd yn un teulu

Ffocws cyd-addoli ar gyfer tymhorau'r gwanwyn a'r haf yn 2004 mewn un ysgol gynradd oedd "Rydym i gyd yn un teulu". Dros gyfnod o 15 wythnos, archwiliodd y disgyblion themâu cyfle cyfartal, tensiwn hiliol, erlyn hiliol a chytgord hiliol. Roedd y cyd-destun ar gyfer y gwasanaethau'n cynnwys:

- Ebony and Ivory: Paul McCartney a Stevie Wonder;
- Hanes masnach gaethwasiaeth;
- John Newton;
- Martin Luther King a Rosa Parks;
- Nelson Mandela;
- Syr Ifan ab Owen Edwards; a
- Mahatma Gandhi.

5.5 Er bod y rhan fwyaf o ysgolion yn cydymffurfio â'r gofyniad cyfreithiol y dylai cyd-addoli fod yn Gristnogol ar y cyfan ac yn bennaf, maent hefyd yn cynnwys credoau eraill, fel nad yw disgyblion o wahanol grefyddau'n teimlo y cânt eu heithrio. Er enghraifft, ledled Cymru, mae ysgolion yn ceisio pwysleisio pwysigrwydd gwerthoedd fel parch, tegwch a chydfodolaeth. Mae sawl ysgol

yn cynllunio eu gwasanaethau i roi sylw i'r calendar crefyddol ar gyfer credoau heblaw am Gristnogaeth. Fodd bynnag, mae rhai ysgolion yn cynnal gwasanaethau cwbl Gristnogol nad ydynt yn gadael i ddisgyblion ymchwilio i grefyddau eraill.

5.6 Mae ysgolion ledled Cymru yn dangos eu hymrwymiad i hyrwyddo cyfle cyfartal ac amrywiaeth drwy ystod o arferion. Er enghraifft, maent:

- yn ceisio sicrhau y gall disgyblion anabl gyfranogi ym mhob maes o'r cwricwlwm;
- yn arddangos arwyddion mewn llawer o wahanol ieithoedd;
- yn arddangos gwaith disgyblion sy'n adlewyrchu ac yn dathlu amrywiaeth ddiwylliannol ac ieithyddol;
- annog disgyblion i ddod ag arteffactau o ddiwylliannau eraill i'r ysgol;
- datblygu cysylltiadau gydag ysgolion mewn ardaloedd eraill yn y DU i helpu disgyblion i werthfawrogi amrywiaeth;
- addasu rheoliadau gwisg i roi mwy o ddewis i ddisgyblion o leiafrifoedd ethnig;
- annog disgyblion o bob grŵp ethnig a'r rheiny o gefndiroedd dan anfantais economaidd, ac wedi'u cefnogi drwy gymorth ariannol, i gymryd rhan yn yr ystod lawn o weithgareddau allgyrsiol; a
- chynnwys cyfeiriadau yn nyddiaduron gwaith cartref disgyblion at bwysigrwydd trin eraill â pharch, gan ystyried oedran, hil, crefydd, anabledd a rhyw.

5.7 Fodd bynnag, nid yw ysgolion bob amser yn gwireddu mentrau addawol yn llawn. Er enghraifft, mae un ysgol yn cynnig opsiynau llysieuol ar gyfer disgyblion o gefndir Moslemaidd, ond nid yw'n cynnig bwyd halal.

6. Mynd i'r afael â gwahaniaethu ac ystrydebau

6.1 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn mynd i'r afael â gwahaniaethu ac ystrydebau mewn cynlluniau gwaith, yn enwedig lle mae manylebau byrddau arholi'n gofyn bod disgyblion yn astudio'r materion hyn. Gwneir hyn yn dda yn gyffredinol a chaiff ei adlewyrchu yn y ddealltwriaeth a'r ymwybyddiaeth gynyddol sydd gan ddisgyblion o'r materion hyn.

6.2 Mae lleiafrif o ysgolion yn mynd i'r afael â'r materion hyn yn fwy creadigol drwy amrywiaeth ehangach o fentrau a gweithdrefnau. Ffocysau mwyaf cyffredin y mentrau hyn yw cydraddoldeb hiliol ac ystrydebau rhyw. Mae llai o bwyslais yn gyffredinol ar fynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â gwahaniaethu ar sail anabledd.

6.3 Mae llawer o ysgolion yn rhoi pwyslais penodol ar hyrwyddo modelau rôl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Er enghraifft, mae'r ysgolion hyn yn sicrhau y cânt eu cynrychioli'n dda mewn swyddi sydd â chyfrifoldeb yn yr ysgol, naill ai fel aelodau o gyngor yr ysgol, swyddogion neu fel prif fachgen neu brif ferch.

6.4 Fodd bynnag, nid oes digon o athrawon o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a all fod yn fodelau rôl ar gyfer disgyblion. Mae hyn yn bennaf yn sgil prinder yr ymgeiswyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn ymrestru ar gyrsiau hyfforddiant cychwynnol i athrawon, yn hytrach na diffyg ewyllys i gyflogi ymgeiswyr addas.

6.5 Mae rhai ysgolion wedi ceisio annog aelodau o'r gymuned lleiafrifoedd ethnig i fod yn llywodraethwyr ysgolion. Yn y mwyafrif o achosion, ni lwyddodd y fenter hon i ddenu llywodraethwyr newydd, er y mae rhai eithriadau.

6.6 Mae llawer o ysgolion wedi adolygu cynnwys gwerslyfrau ac wedi prynu llyfrau newydd sydd â llai o duedd diwylliannol a thuedd rhyw. Mae llawer o ysgolion wedi defnyddio awr lythrennedd yn arbennig o effeithiol i ddarllen straeon o ystod o ddiwylliannau. Fodd bynnag, mae gan fwyafrif o ysgolion ystod gyfyngedig o destunau amlddiwylliannol addas.

6.7 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cynnig yr un dewisiadau i bob disgybl ym mhob maes o'r cwricwlwm. Mae lleiafrif o ysgolion yn sicrhau y gall disgyblion anabl hefyd gyfranogi mewn ystod lawn o weithgareddau allgyrsiol. Gwneir addasiadau priodol i alluogi hyn.

6.8 Mewn amgylchiadau o'r fath, lle mae disgyblion anabl yn bresennol mewn dosbarth, cymerir camau i'w helpu drwy, er enghraifft, ddarparu offer arbenigol fel meinciau ar gyfer osgo neu lygoden arbennig i'w defnyddio gyda chyfrifiadur.

Astudiaeth Achos B
Dawns: enghraifft o gynhwysiant

Roedd gan ddisgybl dall B6 ddiddordeb mawr mewn cymryd rhan mewn addysg gorfforol, yn enwedig dawns. Roedd yr ysgol eisiau dewis tîm ar gyfer cystadleuaeth dawnsio gwerin Eisteddfod yr Urdd ac roedd y disgybl eisiau cael ei hystyried i gael ei dewis. Yn ystod y sesiynau ymarfer, dangoswyd y camau i'r disgybl a, chan weithio'n agos gyda'i gofalwr, dysgodd y ddawns.

Yna addysgwyd y disgybl i ddawnsio gyda grŵp o ddisgyblion a dangosodd hi ymwybyddiaeth ofodol ragorol. Cafodd ei dewis ar gyfer tîm yr ysgol ac aethant ymlaen i ennill cystadleuaeth ddawns y cylch a'r sir.

6.9 Mae athrawon yn annog disgyblion fwyfwy i ddilyn pynciau y mae eu rhieni yn aml yn ystyried yn amhriodol. Er enghraifft, mewn un ysgol uwchradd, mae disgyblion Asiaidd yn ymrestru ar gyrsiau peirianneg, yn ogystal â phynciau fel astudiaethau busnes y maent wedi'u dilyn yn draddodiadol. Mae athrawon sy'n gyfrifol am Arweiniad Addysg a Gyrfaoedd mewn un AALl wedi cael hyfforddiant sydd wedi mynd i'r afael ag ystrydebau rhyw mewn cyflogaeth, ac mae hyn wedi'u helpu i annog pobl ifanc i beidio â chael eu dylanwadu gan ffactorau o'r fath wrth ddewis gyrfa.

6.10 Mae un ysgol uwchradd, sydd â nifer sylweddol o ddisgyblion sy'n geiswyr lloches, wedi cymryd rhan mewn wythnos ffoaduriaid genedlaethol. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyniad a esboniodd y rhesymau pam y mae pobl yn ceisio lloches a'r problemau y maent yn eu hwynebu. Mae hyn wedi arwain at ddealltwriaeth well a derbyn y disgyblion hyn yn well yn yr ysgol.

6.11 Ledled Cymru, mae swyddogion cyswllt yr heddlu yn ymweld ag ysgolion i siarad â disgyblion am fwlio. Mae nifer o ysgolion wedi datblygu cysylltiadau effeithiol iawn gyda Heddlu De Cymru neu Heddlu Gwent i'w helpu i fynd i'r afael â gwahaniaethu. Mae'r heddlu wedi darparu pecyn defnyddiol i ysgolion, sef 'Brwydro yn Erbyn Hiliaeth', sy'n canolbwyntio ar brofiadau pobl sy'n byw yn Abertawe. Mewn rhai ysgolion, mae swyddogion yn cymryd gwersi ABCh ac yn arwain trafodaethau rhwng disgyblion sydd â'r nod o herio agweddau hiliol.

Astudiaeth Achos C
ABCh: Mynd i'r afael â hiliaeth mewn partneriaeth â'r heddlu

Mae Heddlu De Cymru a Heddlu Gwent fel ei gilydd yn cefnogi agweddau ar ABCh mewn nifer o ysgolion yn ne ddwyrain Cymru.

Mewn un ysgol gyfun, mae'r heddlu wedi creu fideo addysgu ar hiliaeth i ddisgyblion Blwyddyn 8 ac yn hŷn. Ategir y fideo gan gyfres dda o nodiadau, annogaeth ac arweiniad i athrawon eu defnyddio wrth archwilio thema hiliaeth ac i helpu hybu trafodaeth. Mae'n esbonio'r sefyllfa gyfreithiol ac effaith negyddol hiliaeth ar fywydau pobl yn effeithiol. Mae'r fideo hefyd yn dangos gweithgareddau hiliol grwpiau penodol, gan gynnwys y Ku Klux Klan a'r National Front.

Mewn ysgol arall, mae swyddog cyswllt yr heddlu'n arwain sesiynau ar gyfer disgyblion blwyddyn 11 fel rhan o fodiwl o'r enw 'Cymunedau Amrywiol', sy'n archwilio ac yn herio ystrydebau a rhagfarnau'n effeithiol iawn.

6.12 Fodd bynnag, mewn rhai ysgolion, mae'r staff yn dal i ddefnyddio termau amhriodol fel 'coloured' wrth gyfeirio at ddisgyblion du a disgyblion o leiafrifoedd ethnig.

7. Arweinyddiaeth ysgolion ac AALlau

7.1 Yn yr ysgolion hynny lle ystyrir cyfle cyfartal yn rhan annatod o fywyd yr ysgol, mae penaethiaid neu aelodau o dimau arwain yn rhoi cryn bwyslais ar hyrwyddo arfer dda.

7.2 Cynhaliodd un ysgol yng Nghaerdydd archwiliad, wedi'i ariannu gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru fel rhan o'r agenda 'Dysgu i Bawb', a ganolbwyntiodd ar dri maes o fywyd yr ysgol:

- cwricwlwm, addysgu ac asesu;

- derbyniadau, presenoldeb ac ymddygiad; ac
- agwedd ac amgylchedd.

7.3 Helpodd yr archwiliad hwn i athrawon baratoi cynllun datblygu'r ysgol ac arweiniodd at gamau gweithredu penodol i hyrwyddo cyfle cyfartal ac amrywiaeth.

7.4 Cynhaliwyd archwiliadau tebyg mewn ysgolion eraill. Er enghraifft, cynhaliodd un ysgol uwchradd archwiliad o gyfleoedd i fynd i'r afael â chyfle cyfartal ac amrywiaeth mewn pynciau a grwpiau blwyddyn.

7.5 Fodd bynnag, nid yw mwyafrif yr ysgolion wedi cynnal archwiliadau tebyg fel rhan o ymagwedd systematig. Yn yr ysgolion hyn, mae mentrau da iawn yn sefyll ar wahân yn hytrach na bod yn rhan o ymagwedd a reolir ac a gydlynir yn ganolog.

7.6 Mewn rhai ysgolion, mae cydlynwyr cyfle cyfartal a chydraddoldeb hiliol yn teimlo eu bod yn gweithio ar eu pen eu hunain ac nad yw llawer o athrawon yn llwyr ymroddedig i ddatblygu ymagweddau addas.

7.7 Mewn lleiafrif o ysgolion, mae penaethiaid adrannol yn defnyddio dulliau mwy strwythuredig i fynd i'r afael â'r materion hyn. Maent yn dechrau rhoi mwy o sylw i effaith y mentrau hyn.

7.8 Mae llawer o'r gweithgareddau mwyaf defnyddiol a gyflwynir mewn ysgolion yn ymateb i, neu'n cael eu cynllunio i gyd-ddigwydd â, mentrau cymunedol. Mae llawer o'r mentrau hyn yn adeiladu ar raglenni gwaith arferol. Bydd athrawon yn addasu eu rhaglen ac yn trefnu'u haddysgu i fanteisio ar y cyfleoedd hyn. Er enghraifft, mae'r pennaeth mewn un ysgol gynradd wedi datblygu cysylltiadau da gyda'r Swyddog Datblygu'r Celfyddydau ar gyfer yr awdurdod. O ganlyniad i'r bartneriaeth hon, mae sawl grŵp wedi ymweld â'r ysgol ac wedi trefnu amrywiaeth o ddigwyddiadau sydd wedi llwyddo i ymestyn dealltwriaeth disgyblion o faterion diwylliannol a materion y byd. Fel rhan o un fenter, creodd y disgyblion sioe gerdd Affricanaidd yn seiliedig ar thema diogelu'r goedwig law. Creodd y disgyblion yn yr ysgol hon ddawns Indiaidd hefyd a oedd yn cynnwys barddoniaeth am anifeiliaid, ac yn ystod un ymweliad penodol, dysgont am wisgoedd, straeon a cherddoriaeth Affricanaidd.

Astudiaeth Achos D
Dathlu amrywiaeth: Mis Hanes Du

Mae llawer o ysgolion mewn un AALl yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth sy'n dathlu diwylliant ac amrywiaeth; yn benodol cynnydd, cyfoeth ac amrywiaeth pobl Affricanaidd, Asiaidd a Charibïaidd.

Mae'r fenter yn canolbwyntio ar hanes y grwpiau hyn a'i nod yw hyrwyddo cydraddoldeb, parch a dealltwriaeth mewn Prydain aml-ethnig. Mae'r disgyblion yn llunio erthyglau ar faterion fel Olympiaid, ffigyrau hanesyddol, artistiaid ac awduron cyfoes ac arwyr chwaraeon lleol. Caiff yr erthyglau gorau o bob ysgol eu cynnwys mewn papur newydd dathliadol.

7.9 Mae rhai AALlau wedi trefnu cynadleddau ac wedi creu deunyddiau sydd wedi mynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â chynhwysiant ac sydd wedi helpu athrawon i ddeall, er enghraifft, sut i ddefnyddio iaith mewn gwersi a sut i ymdrin â thermau technegol ar gyfer grwpiau lleiafrifoedd ethnig.

8. Dogfen ACCAC ar gyfle cyfartal ac amrywiaeth

8.1 Prin iawn yw'r ysgolion sydd wedi defnyddio dogfen ACCAC yn effeithiol fel adnodd ar gyfer ymagweddau addysgu. Nid yw rhai ysgolion, ac athrawon unigol mewn llawer o ysgolion, hyd yn oed yn ymwybodol o fodolaeth y ddogfen.

8.2 Mewn rhai ysgolion, mae copi o arweiniad ACCAC yn amlwg yn ystafell y staff ac mae rhai agweddau wedi cael eu hamlygu neu'u tynnu at sylw'r athrawon. Mae rhai penaethiaid wedi llungopïo detholiadau perthnasol ar gyfer athrawon penodol. Mewn rhai ysgolion uwchradd, mae gan bob adran gopi o'r arweiniad. Mewn rhai ysgolion, mae'r athrawon wedi trafod gweithredu'r materion a nodir yn nogfen ACCAC mewn cyfarfodydd staff.

8.10 Caiff dogfen ACCAC ei hystyried yn gyffredinol yn arf defnyddiol ar gyfer yr ysgolion hynny sydd â strwythurau ac ymagweddau nad ydynt wedi'u datblygu gystal. Mewn un ysgol, mae polisi cyfle cyfartal yr adran ddrama yn cyfeirio'n benodol at arweiniad ACCAC. Mae rhai ysgolion o'r farn bod yr enghreifftiau o arfer dda a'r llyfrau a argymhellir yn nogfen ACCAC yn ddefnyddiol.

8.11 Fodd bynnag, mewn llawer o ysgolion, nid oes llawer o aelodau o staff yn gwybod am ddogfen ACCAC oherwydd mai'r pennaeth neu'r aelod o staff â chyfrifoldeb dros gyfle cyfartal sy'n ei chadw.

8.12 Mewn ysgolion sydd ag ymagweddau arbennig o arloesol at fynd i'r afael â gwahaniaethu ac ystrydebau, mae athrawon fel arfer wedi datblygu eu mentrau unigryw eu hunain, yn hytrach na mabwysiadu syniadau o arweiniad ACCAC.

8.13 Yn gyffredinol, mae'r mentrau gorau mewn ysgolion ble mae'r pennaeth neu ryw athro arall yn cynnig arweinyddiaeth gref. Mae eu mentrau fel arfer yn adlewyrchu ymrwymiad penodol i gyfle cyfartal ac amrywiaeth.

9. Gwella neu gyfoethogi rhaglenni gwaith

9.1 Gall yr holl ysgolion nodi meysydd yn eu cynlluniau gwaith sy'n cynnig cyfleoedd i fynd i'r afael â chyfle cyfartal ac amrywiaeth. Mewn ysgolion uwchradd, mae'r rhan fwyaf o'r cyfleoedd hyn wedi'u cynnwys yng ngofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol neu fanylebau pynciau TGAU.

9.2 Mae nifer o ysgolion mewn un AALl yn hyrwyddo amser cylch strwythuredig yn weithredol fel ffordd o ddatblygu parch tuag at eraill a hunan-barch.

Astudiaeth Achos E
Hyrwyddo ymwybyddiaeth o gyfle cyfartal drwy Saesneg a daearyddiaeth

Mae'r adran Saesneg mewn un ysgol gyfun yn Ne Cymru wedi cynllunio'r rhaglen astudio i sicrhau yr eir i'r afael â materion hil a rhyw ym mhob grŵp oedran, naill ai drwy astudio testunau penodol, neu drwy waith ysgrifenedig neu ymchwilio.

Mae'r rhaglen cyfnod allweddol 3 yn fwy hyblyg na chyfnod allweddol 4. Yma, mae disgyblion yn astudio hunangofiannau o India'r Gorllewin, dramâu yn seiliedig ar straeon gwerin Islamaidd, gwaith ysgrifenedig menywod a gwahanol grwpiau ethnig. Anogir disgyblion i ysgrifennu bywgraffiadau, ymchwilio i'w cefndiroedd eu hunain ac adeiladu ar eu gwybodaeth o'u gwledydd gwreiddiol. Maent yn edrych ar eu hiaith eu hunain, gan ganolbwyntio ar fapiau geiriau, idiomau a tharddiad geiriau penodol. Mae eitemau ychwanegol yn cynnwys cyflwyno eu gwlad ar ffurf barddoniaeth ac ysgrifennu cân yn seiliedig ar eu cenedligrwydd eu hunain fel rhan o gystadleuaeth caneuon y byd.

Drwy astudio testunau sy'n adlewyrchu gwahanol ddiwylliannau a chefndiroedd ethnig, mae myfyrwyr yn datblygu mwy o falchder yn eu hunaniaeth eu hunain a dangosant barch at draddodiadau a syniadau pobl eraill. Erbyn diwedd Blwyddyn 11, mae'r myfyrwyr wedi astudio awduron Cymreig, Caribïaidd, Asiaidd a Du Americanaidd ac maent wedi dysgu teimlo empathi a dealltwriaeth mewn byd cymhleth.

Mae'r adran ddaearyddiaeth yn cyflwyno disgyblion ym Mlwyddyn 7 i'r materion hyn drwy brosiect lle mae disgyblion yn dod â'u profiadau i'r ystafell ddosbarth. Maent yn dod â newyddion o rannau eraill o'r byd ac yn creu arddangosfeydd ar furiau. Mae cyfraniadau diweddar yn cynnwys erthyglau ar ysgolion seciwlar a gwisgoedd yn Ffrainc a'r problemau gwleidyddol a'r materion ethnigrwydd presennol yn Zimbabwe. Mae rhai disgyblion yn gwylio darllediadau newyddion Indiaidd ar y Rhyngrwyd.

Nod cysylltiol i'r fenter hon yw datblygu hunan-barch disgyblion gan y gall pob un ohonynt gyfrannu at ddatblygiad dealltwriaeth ehangach o faterion y byd a dathlu amrywiaeth yn ei hystyr ehangach.

10. Gweithgareddau allgyrsiol

10.1 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn defnyddio'u rhaglenni gweithgareddau allgyrsiol i ddatblygu ystod o faterion neu themâu sy'n gysylltiedig ag amrywiaeth neu gyfle cyfartal, sydd efallai'n cael eu hystyried mewn mannau eraill yn y cwricwlwm.

10.2 Mae sawl ysgol mewn un AALl penodol wedi ffurfio cysylltiadau gyda gwledydd eraill drwy'r prosiect Comenius. Er enghraifft, ffurfiodd un ysgol gysylltiadau gydag ysgol yn Uganda.

10.3 Mae llawer o ysgolion yn annog bechgyn a merched i fynychu clybiau pêl-droed, rygbi neu bêl-rwyd ar ôl ysgol. Mewn un ysgol, mae clwb pêl-droed tu allan i'r oriau arferol wedi cael ei ailenwi'n glwb chwaraeon i annog mwy o ferched i fynychu. Fodd bynnag, nid yw hyn yn arfer gyffredin eto, yn enwedig mewn ysgolion uwchradd, ac weithiau nid yw ysgolion sydd ag ar ymagweddau wedi'u hymgorffori'n dda at gyfle cyfartal yn cynnig cyfleoedd o'r fath.

11. Digwyddiadau arbennig

11.1 Mae sawl ysgol gynradd yn cydgysylltu'n agos â rhieni ac aelodau'r gymuned i hyrwyddo a dathlu gwyliau mawr fel Diwali, Eid, Nadolig a'r Flwyddyn Newydd Tsieniaidd neu Iddewig. Bydd llawer o ysgolion yn myfyrio ar y gwyliau hyn yn ystod gwasanaethau ysgol. Mae disgyblion mewn rhai ysgolion cynradd yn gwneud masgiau a dreigiau fel rhan o'u dathliad o'r Flwyddyn Newydd Tsieniaidd ac maent yn cysylltu'r dathliadau hyn â meysydd eraill o'r cwricwlwm.

Astudiaeth Achos F
Dathlu amrywiaeth: Noson Ryngwladol a Diwrnod Hwyl Rhyngwladol

Trefnodd un ysgol gynradd noson ryngwladol. Creodd rhieni o 8 gwlad wahanol fwrdd o eitemau bwffe o'u gwlad i bobl eu blasu. Rhoddodd byrddau wedi'u haddurno â baneri, lluniau ac arteffactau y cyfle i'r holl ddisgyblion ddysgu am ddiwylliannau a thraddodiadau pob gwlad. Daeth yr oedolion a'r plant yn gwisgo eu gwisgoedd cenedlaethol. Canwyd caneuon a pherfformiwyd dawnsiau o amryw wledydd. Adroddwyd straeon mewn tair iaith wahanol.

Dilynwyd hyn gan ddiwrnod hwyl rhyngwladol. I baratoi ar gyfer y diwrnod, dewisodd pob dosbarth wlad wahanol a threuliodd y disgyblion yr wythnos yn ymchwilio i wahanol agweddau ar ddiwylliant a thraddodiadau'r wlad honno. Yn ystod y diwrnod ei hun, gwisgodd y plant a'r staff wisgoedd traddodiadol a blasu bwyd o bob cwr o'r byd. Aeth y disgyblion i bob dosbarth arall yn yr ysgol i rannu gwybodaeth am y gwledydd gwahanol. Hefyd, trefnodd y disgyblion hynny a oedd yn dod o Dwrci, Bangladesh, Libya, Tseina, Mecsico a Malaysia arddangosfeydd o'u mamwlad.

O ganlyniad i'r dimensiwn rhyngwladol yn y cwricwlwm, mae disgyblion:

- wedi cynyddu eu hymwybyddiaeth ryngwladol wrth iddynt ddechrau gwerthfawrogi ieithoedd a diwylliannau gwahanol a'r ffordd y mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn perthynu â nhw;
- wedi datblygu hunaniaeth genedlaethol a rhyngwladol iachus a chadarnhaol a gwerthfawrogiad o amrywiaeth;
- wedi datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'u safle fel dinasyddion gweithgar o fewn Ewrop a'r byd ehangach; ac
- wedi cynyddu eu hunanhyder, wedi ehangu eu persbectif ac wedi cynyddu eu cymhelliant personol, gan arwain at welliant mewn lefelau cyflawniad.

11.2 Mae llawer o ysgolion yn defnyddio gwasanaethau ysgol i ymchwilio i faterion penodol, gan gynnwys parch at unigolion, ystrydebau a gwahaniaethu ar sail oedran. Yn yr achosion gorau, cânt eu paratoi a'u cyflwyno gan ddosbarth neu grŵp blwyddyn penodol. Er enghraifft, mewn un ysgol, paratôdd y disgyblion wasanaeth dosbarth gyda'r thema 'Dechreuadau Newydd'. Bu iddynt adrodd sut caiff y Flwyddyn Newydd ei dathlu mewn rhai gwledydd, ysgrifennu cerddi 'rap croeso' a chyfansoddi geiriau a chaneuon ar gyfer caneuon a dawnsfeydd Blwyddyn Newydd Tseiniaidd.

11.3 Cynhaliodd un ysgol gynradd wythnos o weithgareddau lle mabwysiadodd pob dosbarth wlad wahanol a gwisgo'r wisg a chreu bwyd o'r wlad honno. Dilynwyd hyn gan ymchwil i'r wlad honno a rhannwyd eu canfyddiadau gyda

disgyblion eraill yn y gwasanaeth. Roedd y gwledydd a astudiwyd yn cynnwys De Affrica, Ffrainc, Siapan, Jamaica ac Awstralia.

Astudiaeth Achos G
Adeiladu cysylltiadau gyda gwledydd Ewropeaidd: Y prosiect Gwreiddiau ac Adenydd

Mae un AALl wedi bod ar flaen y gad o ran datblygu cysylltiadau â gwledydd Ewropeaidd drwy ei brosiect Gwreiddiau ac Adenydd. Athroniaeth y prosiect Gwreiddiau ac Adenydd yw, os yw'r unigolyn yn falch o'i wreiddiau ef neu hi, yna gall ef/hi uniaethu gyda phobl eraill a'u ffordd o fyw'n fwy effeithiol.

Cafodd y prosiect Gwreiddiau ac Adenydd (Roots and Wings), sy'n seiliedig ar y rhwydwaith Comenius, ei sefydlu ym 1995 yn wreiddiol. I ddechrau, cysylltodd Ceredigion â Vejle yn Nenmarc, a Thwsgani yn yr Eidal. Yn 2004, cafodd y rhwydwaith ei ymestyn i gynnwys Steiermark yn Awstria, Olomouc yn y Weriniaeth Tsiec, Malmo yn Sweden a Dulyn yng Ngweriniaeth Iwerddon. Un o brif nodau'r cwmni yw cefnogi ysgolion i lunio cynlluniau o ansawdd da gyda'u partneriaid mewn ysgolion eraill i wella agweddau ar ddysgu rhwng plant, a rhwng athrawon a phenaethiaid, fel rhan o ddatblygu ysgolion. Dyma nodweddion rhagorol y prosiect:

- mae wedi annog ysgolion i ddefnyddio TGCh mewn amryw fformatau, ac ar gyfer ystod eang o weithgareddau;
- mae wedi cynnig cyfleoedd rhagorol ar gyfer datblygiad proffesiynol drwy gynadleddau partneriaeth, athrawon yn ymweld ag ysgolion mewn gwledydd eraill a datblygiadau cwricwlwm cysylltiedig;
- mae staff wedi cyfrannu at ddatblygiad proffesiynol athrawon mewn rhannau eraill o Gymru ac Ewrop;
- mae staff wedi elwa ar raglen Hyfforddiant y Cyngor Prydeinig; ac
- mae hyblygrwydd y prosiect yn galluogi i grwpiau o ysgolion ddatblygu partneriaethau wedi'u teilwra i'w hanghenion, ond mewn strwythur a fframwaith cyffredin.

Mae'r prosiect hefyd yn cefnogi datblygiad arweinyddiaeth effeithiol drwy;

- hybu ymwybyddiaeth o wahanol fodelau arweinyddiaeth a hyrwyddo deialog ynglŷn ag arweinyddiaeth;
- canolbwyntio ar faterion fel tangyflawni ymysg bechgyn, hunarfarnu, ymagweddau dysgu a hyrwyddo cynhwysiant; a
- nodi meysydd lle y byddai'n ddefnyddiol i rannu atebion i broblemau eraill sy'n gyffredin rhwng y gwledydd.

12. Cyd-destun deddfwriaeth Cysylltiadau Hiliol

12.1 Mae'r cod ymarfer ar gyfer dileu gwahaniaethu hiliol yn nodi ei bod yn anghyfreithlon i AALl wahaniaethu mewn unrhyw un o'i swyddogaethau dan Ddeddfau Addysg 1944 – 1981. Er enghraifft, byddai hyn yn cynnwys y canlynol:

- darparu prydau ysgol;
- darparu cludiant ysgol;
- gwasanaethau lles addysg, cyswllt a seicolegol;
- darpariaeth Saesneg fel iaith ychwanegol;
- y Gwasanaeth Ieuenctid; a
- grantiau i fyfyrwyr.

12.2 Mae gan AALlau ddyletswydd gyffredinol i ddarparu eu holl wasanaethau heb wahaniaethu hiliol anghyfreithlon. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol gyffredinol i sicrhau bod eu hamryw swyddogaethau yn cael eu cynnal gan roi ystyriaeth briodol i'r angen i:

- ddileu unrhyw wahaniaethu hiliol anghyfreithlon; a
- hyrwyddo cyfle cyfartal a chysylltiadau da rhwng pobl o grwpiau hiliol gwahanol.

13. Gwaith AALlau ac ysgolion wrth fodloni dyletswyddau statudol dan y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio)

13.1 Roedd yr holl gynghorau lleol yr ymwelwyd â hwy yn ystyried bod eu cyfrifoldeb ar gyfer hyrwyddo ymwybyddiaeth hiliol yn bwysig iawn. Mae aelod o dîm y prif weithredwr yn aml yn gyfrifol am y rhan hon o agenda Gorfforaethol y cyngor. Yna caiff yr agenda corfforaethol hwn ei hyrwyddo a'i ddatblygu ym mhob adran o'r cyngor gan gynnwys addysg. Mae'r rhan fwyaf o gynghorau'n monitro cynnydd drwy eu systemau rheoli perfformiad.

13.2 Mae'r rhan fwyaf o AALlau yng Nghymru wedi llunio polisïau cydraddoldeb hiliol enghreifftiol ar gyfer eu hysgolion. Mae gan bron pob ysgol bolisi cydraddoldeb hiliol. Roedd un ysgol a ymwelwyd â hi heb bolisi, neu, nid oeddent yn gwybod ei bod yn ofynnol iddynt gael polisi. Er bod gan bron pob ysgol y polisïau hyn, maent yn aml yn gopïau yn unig o'r polisïau model y darperir ar eu cyfer gan yr AALl, heb fawr ddim o ystyriaeth neu ddim ystyriaeth o gwbl i amgylchiadau unigol yr ysgol ei hun. Prin iawn yw'r ysgolion sydd â chynlluniau gweithredu sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb hiliol.

13.3 Mae lleiafrif o ysgolion mewn ardaloedd ag ychydig neu ddim disgyblion o leiafrifoedd ethnig o'r farn nad oes llawer o arwyddocâd i addysg cydraddoldeb hiliol iddyn nhw. Un sylw amhriodol a wnaed gan bennaeth oedd "Nid yw'n broblem yma gan nad oes disgyblion 'coloured' yn ein hysgol".

13.4 Nid oes llawer o AALlau wedi cynnig cymorth i ysgolion ar gyfer cydraddoldeb hiliol heblaw am lunio polisi model. Mae'r AALlau hynny â niferoedd mawr o ddisgyblion o leiafrifoedd ethnig yn cynnig cymorth digonol yn gyffredinol. Dim ond lleiafrif o AALlau sydd wedi monitro a yw'r ysgol wedi llunio ei pholisi ei hun ai peidio, a gweithredu'r polisi hwnnw, gan gynnwys a yw'r polisi wedi'i gysylltu â chynllun datblygu'r ysgol.

Astudiaeth Achos H
Amrywiaeth a gwahaniaethau hiliol

Mewn un AALl, rhoddwyd blaenoriaeth uchel i 'Amrywiaeth a Gwahaniaethau Hiliol' yn ystod ymweliad y Swyddog Cyswllt neu'r Ymgynghorydd ag ysgolion yn ystod Tymor y Gwanwyn 2004. Yn ystod pob ymweliad, holwyd tri chwestiwn, sef:

- A gaiff polisi cydraddoldeb hiliol yr ysgol ei weithredu drwy gynllun gweithredu penodol?
- A yw pob aelod o staff yn gweithredu hwn?
- A oes gan yr ysgol system ar gyfer cofnodi achosion hiliol?

Dyma enghraifft o rai ymatebion a roddwyd yn ystod ymweliad ag ysgol:

A gaiff polisi cydraddoldeb hiliol ei weithredu drwy Gynllun Gweithredu penodol?
A yw pob aelod o staff yn gweithredu hwn?
Mabwysiadwyd a gweithredwyd polisi cydraddoldeb hiliol. Yn gyffredinol, mae cyrhaeddiad disgyblion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn yr ysgol yn uwch na'r normau sirol a chenedlaethol. Rhoddir y cyfle i'r disgyblion hyn gwrdd fel grŵp unwaith yr wythnos.

A oes gan yr ysgol system ar gyfer cofnodi achosion hiliol?
Defnyddir llyfr penodol i gofnodi unrhyw achos hiliol. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gofnod o achos yn y llyfr.

Manylion am unrhyw gamau pellach y mae angen i'r ysgol eu cymryd. Dylid cytuno ar hyn gyda'r Pennaeth cyn gadael yr ysgol.

- Parhau i weithredu'r rhaglen hunanarfarnu a rhoi sylw i'r materion hynny a godwyd gan arolygwyr Estyn.
- Parhau â'r arfer dda o roi statws a pharch i ddiwylliant ac iaith disgyblion o wahanol gefndiroedd ethnig.

Yn dilyn yr ymweliadau, crynhowyd darlun awdurdod cyfan. O ganlyniad, canfuwyd bod pob ysgol yn yr AALl wedi ymateb i'r angen i gael polisi ond roedd nifer fechan o ysgolion nad oeddent wedi llunio nac adolygu cynllun gweithredu ac nid oedd ganddynt strategaeth glir ar gyfer cofnodi achosion hiliol.

13.5 Mae gan rai AALlau systemau i fonitro effaith polisïau cydraddoldeb hiliol ysgolion ar lefelau cyrhaeddiad disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o AALlau yn dadansoddi eu data'n ddigonol.

Astudiaeth Achos I
Dadansoddi cyrhaeddiad disgyblion

Mae gan un AALl yng ngogledd Cymru, sy'n cynnwys prifysgol ddinesig ac ysbyty mawr, gyfran fawr o ddisgyblion o leiafrifoedd ethnig. Yn yr AALl hwn, cynhelir dadansoddiadau a hynod drwyadl o gyrhaeddiad disgyblion yn ystod tymor yr hydref.

Mewn ysgolion lle ceir niferoedd mawr o ddisgyblion o dras lleiafrifoedd ethnig, bydd y Swyddog Gwella Ysgolion yn herio'r ysgol am ei chyflawniad.

Pan mae disgyblion yn pontio o CA2 i CA3 ac o CA3 i CA4, mae'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion yn rhoi 'gradd' i bob ysgol. Mae'n cynnwys gwybodaeth am berfformiad pob disgybl yn ogystal â rhagolwg o'u perfformiad ar ddiwedd y Cyfnod Allweddol.

Mae'r rhestr graddio yn galluogi ysgolion a'r AALl i ddarganfod yn gynnar os yw grwpiau disgyblion ethnig penodol yn tangyflawni neu'n tangyrraedd.

Y patrwm clir a welir yn y ddau sector yw bod perfformiad disgyblion o leiafrifoedd ethnig yn yr AALl penodol hwn, yn fwy aml na pheidio, yn y chwartel uchaf. Yn wir, mewn un ysgol, mae disgyblion o dras lleiafrifoedd ethnig yn gyson yn cyrraedd Lefel 4 mewn Cymraeg yng nghyfnod allweddol 2.

13.6 Mae AALlau yn cynnig arweiniad clir a chymorth i'w hadrannau eu hunain ac i ysgolion pan ddymunant recriwtio a chyflogi staff. Mae AALlau hefyd yn rhoi cyngor da i ysgolion ynglŷn â gwahaniaethu mewn cyflogaeth, ac mae hyn fel arfer yn cwmpasu:

- recriwtio;
- dyrchafu;
- amodau cyflogaeth;
- diswyddo;
- trosglwyddo;
- hyfforddiant; a
- mynediad i gyfleusterau neu wasanaethau a ddarperir gan gyflogwr.

13.7 Mae rhai AALlau yn hyrwyddo cydraddoldeb hiliol drwy annog ysgolion i ehangu eu gorwelion a gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion o wledydd eraill. Mae'r partneriaethau hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn yn gyffredinol ac maent wedi creu gwaith da iawn.